Cyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol, Dydd Mawrth, 18 Ionawr 2011:

Dadl ar y Gyllideb Ddrafft

Nodyn briffio gan hafal

Yn y ddadl yn y cyfarfod llawn, bydd Aelodau Cynulliad yn trafod y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2011-2012, gan gynnwys gwariant ar iechyd. Bydd y gyllideb derfynol yn cael ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y 1af Chwefror a'i dadlau ar yr 8fed Chwefror.

Mae'r papur briffio hwn yn nodi'r hyn y mae'r Gyllideb Ddrafft yn datgan ynghylch gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl, yr hyn sydd gan gleifion i'w ddweud ynghylch y cynigion a'r hyn y gall Aelodau Cynulliad ei wneud er mwyn cefnogi'r gwasanaethau yn y maes hanfodol hwn.

• Beth mae'r Llywodraeth yn ei ddweud ynghylch gwariant iechyd meddwl?

Mae Cyllideb Ddrafft 2011-2012 Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys y datganiadau canlynol:

Mae'r gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi'i gwarchod rhag unrhyw ostyngiadau mewn arian parod yn 2011-12 a 2012-13, ac mae'n derbyn codiad bychan yn yr arian parod yn 2013-14. Mae'r lefel hwn o amddiffyniad yn adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen yn cael eu darparu ledled Cymru." (Cyllideb Ddrafft, tud. 33)

"Mae'r cyllid refeniw ar gyfer 2011-12 a 2012-13 yn parhau'n ddigyfnewid ar yr un lefel â'r gyllideb ar gyfer 2010-11." (Cyllideb Ddrafft, tud. 33)

"Byddwn yn parhau i flaenoriaethu gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl. Mae tua 12% o gyfanswm cyllid y GIG wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, a byddwn yn buddsoddi er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) arfaethedig." (Cyllideb Ddrafft 6.para. 6.6 tud.34)

"Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol hanfodol yn cael eu darparu. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu cyllido, yn bennaf, o'r Gyllideb Llywodraeth Leol ac mae'r elfen gofal cymdeithasol yn y Grant Cynnal Refeniw yn cynnwys yr adnoddau angenrheidiol i roi amddiffyniad o 1% uwch ben y newidiadau i DEL Cymru. Rydym hefyd wedi cynnal y buddsoddiad mewn gwasanaethau cymdeithasol a ariennir drwy'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol." (Cyllideb Ddrafft 6.para. 6.7 tud.34)

• Beth mae cleifion yn ei ddweud?

Er ei fod yn siomedig iawn fod gostyngiadau yn cael eu gwneud mewn nifer o feysydd gwariant cyhoeddus, mae'r ffaith fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penderfynu diogelu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol rhag gostyngiadau yn y gyllideb dros y tair blynedd nesa yn cynnig ychydig o gysur i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Mae Aelodau Hafal yn croesawu datganiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef y bydd yn parhau i flaenoriaethu gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl, ac rydym yn annog darparu mwy o gyngor i Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol ar sut i sicrhau fod y penderfyniad i ddiogelu cyllidebau iechyd meddwl rhag gostyngiadau mewn arian parod ac amddiffyn gwasanaethau cymdeithasol dros y tair blynedd nesaf yn cael ei weithredu.

Rydym am weld ymrwymiad y bydd cyllidebau iechyd meddwl, o fewn bob un flwyddyn ariannol, yn cael eu monitro mewn modd clir, agored a thryloyw er mwyn sicrhau fod y bwriadau da i flaenoriaethu gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl yn cael eu gweithredu gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol.

Sut y mae Aelodau Cynulliad yn medru amddiffyn gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl?

Yn sgil y Gyllideb Ddrafft, mae Aelodau Hafal - pobl sydd ag afiechyd meddwl difrifol a'u gofalwyr - yn annog Aelodau Cynulliad i sicrhau fod gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu hariannu'n deg dros y flwyddyn sydd i ddod, a hynny drwy:

ofyn am ymrwymiad clir gan Lywodraeth y Cynulliad y bydd adnoddau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu diogelu a bod modd cynnig tystiolaeth o hyn drwy fecanwaith adrodd tryloyw

ofyn i Is Gadeiryddion y Byrddau Iechyd Lleol - sydd â chylch gorchwyl penodol am iechyd meddwl - i wirio a chadarnhau fod gwasanaethau ar gyfer pobl ag afiechyd meddwl yn cael eu diogelu yn eu hardal hwy

ofyn i Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid y Byrddau Iechyd Lleol i ddangos sut y mae gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl yn cael ei ddiogelu'n llwyr

gydlynu gyda Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cynradd, Cymunedol ac Iechyd Meddwl y Byrddau Iechyd Lleol a gwirio os yw eu profiad hwy'n debyg i'r hyn sydd yn cael ei ddweud gan y Bwrdd Iechyd Lleol ynghylch gwariant ar iechyd meddwl

wneud cais i arweinwyr Awdurdodau Lleol am wybodaeth a thystiolaeth ynghylch sut y mae gwasanaethau ar gyfer pobl ag afiechyd meddwl yn cael eu diogelu.

Ynglŷn â Hafal

Hafal (sydd yn golygu 'cydradd') yw'r prif fudiad yng Nghymru sydd yn gweithio gydag unigolion sydd yn gwella o afiechyd meddwl difrifol a'u gofalwyr. Mae'r mudiad yn cael ei redeg gan y 1200 o Aelodau - pobl ag afiechyd meddwl difrifol a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae ein 168 aelod o staff a 150 o wirfoddolwyr yn darparu cymorth bob dydd i fwy na 1,000 o bobl sydd wedi eu heffeithio gan afiechyd meddwl difrifol: mae hyn yn cynnwys sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol a diagnosis eraill sydd fel arfer yn ymwneud â seicosis neu lefelau uchel o ofal ac sydd angen triniaeth ysbyty efallai.

Mae Hafal wedi ei sefydlu ar y gred mai pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o afiechyd meddwl a ŵyr orau sut y dylid darparu gwasanaethau. Yn darparu cymorth ar draws ardaloedd y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru, mae Hafal wedi ymrwymo i ymrymuso pobl ag afiechyd meddwl difrifol a'u gofalwyr i:

- sicrhau ansawdd bywyd gwell
- wireddu eu huchelgais ar gyfer adferiad
- ymladd gwahaniaethu
- fwynhau mynediad cyfartal at ofal iechyd a chymdeithasol, tai, incwm, addysg a chyflogaeth.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.hafal.org neu ewch i'n tudalen Facebook.

Am fwy o wybodaeth ar y Gyllideb Ddrafft, cysylltwch os gwelwch yn dda â Peter Martin, Cydlynydd Polisi Cenedlaethol Hafal ar 01792 816600 neu drwy E-bost, petermartin@hafal.org. Er mwyn trafod materion eraill sydd yn ymwneud ag iechyd meddwl, mae'n bosib i chi gysylltu hefyd â'r Eiriolwr Defnyddwyr Gwasanaethau Cenedlaethol, Sue Barnes, neu Arweinydd Materion Cynulliad Cenedlaethol Hafal, Junaid Iqbal, ar 01792 816600 neu drwy E-bost, publicaffairs@hafal.org